YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 16/2017
DYDDIAD CYHOEDDI: 28/03/2017

# Gwerthusiad o'r dull Rheoli Achosion Uwch

**Crynodeb**

## 1. Y dull Rheoli Achosion Uwch

1.1 Bu Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru (YJB) a Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phedwar Tîm Troseddau Ieuenctid (tri yn ddiweddarach) a Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan (FACTS) i dreialu dull Rheoli Achosion Uwch (ECM) newydd o weithio gyda phobl ifanc oedd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae'n seiliedig ar y Model Gwella o Drawma (TRM) ac fe'i cynlluniwyd i wneud y canlynol:

- Darparu mwy o wybodaeth a dealltwriaeth i ymarferwyr a rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid o ran sut y gall ymlyniad cynnar, trawma a digwyddiadau niweidiol bywyd effeithio ar allu person ifanc i gymryd rhan yn effeithiol yn ymyriadau'r system cyfiawnder ieuenctid.
- Darparu dull sy'n seiliedig ar seicoleg o ffurfio achos a chynllunio ymyriadau amlasiantaeth. Byddai hyn, yn ei dro, yn galluogi staff cyfiawnder ieuenctid i deilwra a threfnu ymyriadau pellach yn fwy effeithiol yn unol ag anghenion datblygiadol a meddyliol pobl ifanc unigol.

1.2 Mae dull ECM yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Defnyddio'r Model Gwella o Drawma fel y ddamcaniaeth sylfaenol. Model saith cam yw hwn sy'n paru ymyrraeth/cymorth ag ymddygiadau a welir ac anghenion sylfaenol.
- Rolau penodol er mwyn helpu i ddatblygu a chyflwyno'r gwaith fesul tipyn.
- Hyfforddiant i ymarferwyr a rheolwyr e.e. ar faterion ymlyniad, datblygiad plant a thrawma, a sut gallai'r rhain effeithio ar allu pobl ifanc i weithredu o ddydd i ddydd.
- Meini prawf cymhwysedd clir.
- Sicrhau cydsyniad gwybodus gan bobl ifanc i ddefnyddio'r dull hwn, a gan eu rhieni/gofalwyr lle bo'n berthnasol.
- Dull creu achos sy'n defnyddio sgiliau seicolegydd clinigol.

- Nod o sicrhau bod ymyriadau ac arferion yn cyfateb yn well i anghenion datblygiadol pobl ifanc.
- Darparu goruchwyliaeth glinigol i ymarferwyr Timau Troseddwyr Ieuenctid.

1.3 Fe wnaeth tri Tîm Troseddau Ieuenctid dreialu'r dull gyda 21 o bobl ifanc ag anghenion cymhleth a hanes cyson o droseddu. Roedd pedwerydd Tîm yn rhan o'r treial hefyd, cyn tynnu'n ôl yn y camau cynnar.

1.4 Cafodd cwmni Cordis Bright ei gomisiynu gan YJB Cymru a Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2015 i werthuso'r treial hwn.

## 2. Nodau a methodoleg yr ymchwil

2.1 Nod y gwerthusiad oedd asesu a yw'r dull ECM wedi'i roi ar waith yn effeithiol ac mewn modd sy'n driw i'r model; er mwyn archwilio pam roedd pobl ifanc yn ymgysylltu, ddim yn ymgysylltu neu'n tynnu allan o'r rhaglen yn gynnar yn ogystal â'r hyn a gyflawnwyd. Hefyd, roedd y gwerthusiad yn archwilio a ddylid rhoi'r dull ECM ar waith ymhellach; y ffordd orau o fonitro a gwerthuso dulliau gweithredu i'r dyfodol o ran prosesau a chanlyniadau; ac a oedd angen unrhyw addasiadau i'r dull.

2.2 Cynhaliwyd y gwaith maes mewn dau gam (Tachwedd 2015 i Ionawr 2016 a Chwefror 2016 i Tachwedd 2016) ac roedd y dull methodolegol yn cynnwys ymchwil sylfaenol ac eilaidd.

## 3. Canfyddiadau allweddol

### Diben y dull ECM

3.1 Roedd staff Timau Troseddau Ieuenctid a gymerodd ran yn y treial yn cytuno bod angen dulliau newydd o weithio gyda'r grŵp targed o bobl ifanc er mwyn ymateb i'w hanghenion cymhleth.

3.2 Roedd gan bob rhanddeiliad ddealltwriaeth dda o elfennau gwahanol y dull ECM, ei ddiben a sut y dylai gael ei weithredu'n ymarferol.

### Gweithredu'r treial

3.3 Cafodd amserlen y treial ei hymestyn sawl tro. Roedd sawl rheswm am hyn, gan gynnwys rheolau cyllid llywodraeth y DU ar wariant newydd, yr amser oedd ei angen ar Wasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan i baratoi i gymryd rhan, newidiadau yn nifer y Timau Troseddau Ieuenctid sy'n rhan o'r treial, ac anawsterau o ran recriwtio nifer penodol o bobl ifanc.

3.4 Llwyddodd y dull creu achos i gyflawni'r canlynol: presenoldeb eithaf da gan amrywiaeth o asiantaethau (er i'r niferoedd ostwng dros amser); gwybodaeth ychwanegol am y person ifanc dan sylw; mwy o bwyslais ar ymyriadau sy'n cyfateb i anghenion yr unigolyn a'u rhoi ar waith ar yr adeg iawn; cymorth wedi ei gydgysylltu'n well rhwng asiantaethau; monitro'r cynnydd yn well; ac arbenigedd ychwanegol trwy gynnwys seicolegydd clinigol.

3.5 Ystyriwyd bod goruchwyliaeth glinigol yn elfen allweddol o'r dull hwn.

3.6 Cymysg oedd yr ymateb i'r cwestiwn a oedd angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r dull ECM.

**Ymgysylltiad pobl ifanc**

3.7 Y meini prawf cymhwysedd ar gyfer pobl ifanc oedd: (a) hanes o droseddu cyson (pum achos o droseddu neu fwy) yn y 12 mis cyn cael eu hatgyfeirio i'r treial; (b) tystiolaeth o anghenion cymhleth; ac (c) yn destun gorchymyn llys troseddol statudol ar hyn o bryd. Cafodd y rhain eu haddasu'n ddiweddarach er mwyn cynyddu'r cyfnod o amser y gallai troseddau niferus ddigwydd (o 12 i 24 mis) a galluogi pobl i gyfrannu o'u gwirfodd i'r treial ECM y tu allan i amserlen y gorchymyn statudol, er mwyn caniatáu digon o amser i gymryd rhan.

3.8 Roedd angen newid y meini prawf cymhwysedd er mwyn helpu i gyrraedd targed nifer y bobl ifanc i'w cynnwys yn y treial. Roedd hyn oherwydd mai dim ond nifer fach o bobl ifanc oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd gwreiddiol. Unwaith yr oedden nhw'n gymwys, ychydig o anawsterau a gafwyd o ran sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y dull ECM.

3.9 Roedd proffil y bobl ifanc oedd yn rhan o'r treial yn cyd-fynd â'r meini prawf cymhwysedd (diwygiedig). Y problemau mwyaf cyffredin oedd yn wynebu'r bobl ifanc hyn oedd alcohol a chyffuriau, profiad o gam-drin domestig, a dioddef cam-drin corfforol. Fel arfer, roedd cymhlethdodau'r achosion yn dibynnu ar faint o broblemau oedd yn wynebu'r bobl ifanc (chwe phroblem yr un ar gyfartaledd).

3.10 Fe wnaeth lefelau ymgysylltu pobl ifanc â'r Tîm Troseddau Ieuenctid wella dan y dull ECM.

**Newidiadau o ran ymarfer**

3.11 Yn gyffredinol, roedd pawb yn cytuno bod ymarfer y Timau Troseddau Ieuenctid wedi gwella yn sgil y dull ECM. Roedd gan staff y Timau Troseddau Ieuenctid ddealltwriaeth well o anghenion sylfaenol pobl ifanc ac mewn gwell sefyllfa i ddeall effaith ymlyniad a thrawma plentyndod ar fywydau pobl ifanc. Roedd cynlluniau ymyrryd wedi'u teilwra'n well i anghenion pobl ifanc. Hefyd, nodwyd gwelliannau yn y modd roedd staff yn ymwneud â phobl ifanc ac yn eu cefnogi nhw. Roedd gwelliannau o ran eu perthynas ag eraill yn cael ei ystyried yn fantais arbennig.

3.12 Roedd dull ECM wedi helpu i wella dealltwriaeth, sgiliau ac ymarfer gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn ogystal â'r modd mae asiantaethau'n gweithio gyda phobl ifanc yn gyffredinol.

3.13 Roedd y dull o gofnodi'r cymorth y byddai gweithiwr Tîm Troseddau Ieuenctid yn ei ddarparu i bobl ifanc dan y dull ECM, yn cyd-fynd ar y cyfan â systemau cofnodi achosion cyfredol.

**Newidiadau o ran rheoli**

3.14 Roedd rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn cefnogi, ac yn cyfrannu'n llawn at y dull ECM.

3.15 Nodwyd amryw o newidiadau i ddulliau rheoli fel rhan o'r dull ECM. Roedd rheolwyr yn cefnogi ac yn galluogi ymarferwyr i fuddsoddi amser yn meithrin perthynas â phobl ifanc, ac i roi mwy o bwyslais ar eu hanghenion gwaelodol. Roedd rheolwyr yn cefnogi ymarferwyr i flaenoriaethu a chyflwyno ymyriadau fesul cam i bobl ifanc, mewn ffordd sy'n diwallu anghenion uniongyrchol yr unigolyn ifanc a'i lefel ddatblygu yn ôl y Model Gwella o Drawma. Hefyd, roeddent yn galluogi staff i ymateb yn fwy hyblyg i amodau gorchmynion pobl ifanc nad ydynt yn cydymffurfio, yn sgil unrhyw amgylchiadau sy'n lleihau eu bai.

3.16 Yn ystod y treial, dysgwyd dwy wers benodol am faterion rheoli fel rhan o ddull ECM, h.y. angen sicrhau perthynas glir rhwng trosolwg/rheolaeth fewnol a goruchwyliaeth glinigol

fewnol; a manteision rheolwyr yn dilyn hyfforddiant ar ddull ECM er mwyn deall goblygiadau ehangach y dull ECM ar Dimau Troseddau Ieuenctid.

**Gwelliannau ym mywydau pobl ifanc**

3.17 Mae cyfweliadau â rhanddeiliaid, adolygiadau o ffeiliau achos yn ogystal â sylwadau pobl ifanc yn awgrymu bod bywydau rhai pobl ifanc wedi gwella wrth ddefnyddio'r dull ECM, er enghraifft eu bod yn fwy cydnerth a chadarn yng nghanol bywyd teuluol helbulus, yn fwy hunanhyderus, yn gallu rheoli dicter yn well, yn fwy cadarn yn emosiynol ac ati.

3.18 Hefyd, adroddwyd bod dangosyddion cyfiawnder troseddol wedi gwella i rai pobl ifanc, h.y. lleihau nifer y bobl ifanc sy'n torri amodau eu gorchymyn a lleihad yn y cyfraddau aildroseddu, yn ystod yr achos ac wedi hynny. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd pobl ifanc yn torri eu gorchymyn, yn parhau i aildroseddu, yn cynyddu difrifoldeb eu haildroseddu, ac/neu yn y ddalfa. Ar gyfer yr achosion hynny, roedd y rhai a holwyd yn pwysleisio pwysigrwydd deall effaith yr holl faterion cymhleth sy'n wynebu pobl ifanc a gefnogwyd dan y dull ECM, o ran creu a chynnal gwelliannau/newidiadau.

3.19 Roedd pawb a holwyd yn ochelgar cyn dod i gasgliad cyffredinol o ran i ba raddau y gellir priodoli unrhyw welliannau ym mywydau pobl ifanc i'r dull ECM. Wedi dweud hynny, roedd rhanddeiliaid, ar y cyfan, yn obeithiol ynglŷn â photensial y dull ECM i gyfrannu'n uniongyrchol at ganlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc.

## 4. Casgliadau/argymhellion

4.1 Rydym yn argymell bod y dull ECM yn cael ei weithredu a'i dreialu ymhellach, am y rhesymau canlynol:

- Cefnogaeth gref gan yr holl randdeiliaid sy'n rhan o'r treial a chefnogaeth unfrydol i'w gyflwyno'n ehangach.
- Roedd cryn gefnogaeth a ffyddlondeb i weithredu'r dull ECM (gan ystyried y newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd) ac roedd hyn yn gyson ar draws Timau Troseddau Ieuenctid gydag amgylchiadau lleol gwahanol a phroffiliau anghenion gwahanol (er bod rhywfaint o wahaniaethau rhwng Timau Troseddau Ieuenctid o ran cyfraddau atgyfeirio).
- Roedd data ansoddol a meintiol yn dangos gwelliannau – i raddau gwahanol serch hynny – ym mywydau pobl ifanc. Ategwyd hyn ymhellach gan adolygiadau o ffeiliau achos, oedd yn dangos bod ymarfer dan y dull ECM yn cefnogi gwelliannau o ran perthnasau, lefelau uwch o ymgysylltu a chanlyniadau gwell i bobl ifanc.

4.2 Rydym yn argymell pedwar addasiad i'r dull ECM ar gyfer y tymor byr i ganolig.

- Ystyried datblygu hyfforddiant penodol i reolwyr. Byddai'n gyfle penodol i ystyried materion rheoli a goruchwylio o fewn y dull ECM.
- Diwygio'r canllawiau a'r hyfforddiant ymarfer i gynnwys (a) cyngor ar y ffordd orau o gofnodi ymarfer, yn enwedig mewn perthynas â diben pob apwyntiad/cyfarfod gyda pherson ifanc a'r canlyniadau a gyflawnwyd; a (b) sut dylid ychwanegu nodiadau goruchwyliaeth glinigol at systemau cofnodi achos.
- Ystyried ehangu'r dull ECM i asiantaethau eraill y tu hwnt i'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Gallai hyn hyrwyddo dull mwy cydgysylltiedig a holistaidd o weithio gyda phobl ifanc, nifer ohonynt â chysylltiad parhaus ag asiantaethau unwaith mae amodau'r gorchymyn llys wedi'u cwblhau.

- Sicrhau bod digon o amser ac adnoddau yn cael eu dyrannu i'r darparwr seicoleg clinigol.

4.3 Yn y tymor hirach – ac yn amodol ar ganlyniadau'r gwerthusiad parhaus – rydym yn argymell ehangu'r meini prawf cymhwysedd ymhellach i gynnwys pobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid, sydd ag anghenion cymhleth ond heb hanes cyson o droseddu.

4.4 Os bydd y dull ECM yn cael ei gyflwyno'n ehangach, yna rydym yn argymell y dylai unrhyw werthusiad: fynd i'r afael â chydsyniad gwybodus sy'n dilyn ymarfer effeithiol a'i fod yn sicrhau bod llawer iawn yn cymryd rhan; yn gosod targedau fel y gellir mesur cynnydd; yn dilyn llwybr sy'n sicrhau bod modd priodoli cynnydd i'r dull; ac yn ystyried a yw'r dull ECM yn cynnig gwerth am arian.


Awduron yr Adroddiad: Cordis Bright

CordisBright

Adroddiad ymchwil llawn: Cordis Bright. (2017). *Gwerthusiad o'r dull Rheoli Achosion Uwch: adroddiad terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 16/2017.
Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-enhanced-case-management-approach/?lang=cy


Safbwyntiau'r ymchwilwyr, nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd, a fynegir yn yr adroddiad hwn.



Rhagor o wybodaeth:
Semele Mylona
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Semele.Mylona@wales.gsi.gov.uk



OGL © Hawlfraint y Goron


ISBN Digidol 978-1-4734-8321-7